Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 317 – 18 Rhagfyr 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2008.

1. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd ei fod ef a RhG wedi cymryd rhan yng nghwrs Cymraeg Clir a drefnwyd gan Cyfle yng Nghaernarfon ar 10 - 11 Rhagfyr. Mae'n fwriad i drefnu cwrs arall cyn bo hir.

Nos Iau, 11 Rhagfyr, lansiwyd rhaglenni Nadolig S4C yn Galeri, Caernarfon, a nododd y Cadeirydd ei fod yn credu bod yr arlwy ar gyfer yr y l yn arbennig iawn gyda rhywbeth at ddant pawb.

Mynychodd y Cadeirydd ynghyd â Bill Davies ac Eira Davies noson Carolau Llangollen nos Sul 13 Rhagfyr.

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Anfonwyd ymateb S4C i'r Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus at Ofcom erbyn 4 Rhagfyr.

Cafwyd cyfarfod rhwng IJ, JWJ a'r Ysgrifennydd Gwladol, Andy Burnham ar 16 Rhagfyr.

3. Cymeradwyo diweddariad o Bolisi Amddiffyn Plant S4C; a chymeradwyo Cynllun Anabledd 2009

Cymeradwywyd y ddau bolisi.

4. Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil

Cafwyd cyflwyniad o'r Crynodeb Segmenteiddio GfK NOP Media gan Carys Evans a Gwenan Llwyd Evans.

5. Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Yn dilyn cyfweliadau penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo PricewaterhouseCoopers i'r Awdurdod i'w penodi fel Archwilwyr Mewnol. Cymeradwywyd penodiad PricewaterhouseCoopers gan yr Awdurdod.

6. Aelodaeth o'r Awdurdod

Nododd JWJ mai hwn oedd cyfarfod olaf CH fel Aelod o'r Awdurdod. Diolchodd iddi am ei chyfraniad i waith yr Awdurdod dros gyfnod o chwe blynedd, a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.

7. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad o'r Pwyllgor Personél